

Beth i'w Ddisgwyl Gan y Teclyn Hwn

Bydd y teclyn hwn yn eich helpu i archwilio a deall eich opsiynau llwybr buddsoddi.

Mae llwybrau buddsoddi yn opsiynau buddsoddi syml, parod, a reolir gan eich darparwr.

Efallai y bydd yr opsiwn hwn yn iawn i chi os ydych yn; 55 oed neu drosodd, gyda phensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio, eisoes wedi cyfrifo faint o bensiwn y gallech ei gael pe baech yn rhoi'r gorau i weithio ac yn dymuno cymryd swm arian parod di-dreth a gadael eich pensiwn sy'n weddill wedi'i fuddsoddi.

Trwy nodi gwerth eich cronfa bensiwn a'ch dyddiad geni, gall y teclyn hwn ddangos cynhyrchion tynnu pensiwn i chi gydag atebion buddsoddi parod a'ch galluogi i gymharu'r cynhyrchion hyn â faint y byddent yn ei gostio mewn taliadau blyneddol.

Nid dyma'r unig opsiwn ar gyfer cymryd eich pensiwn, os ydych yn 50 oed neu drosodd ac yn ansicr am beth dylech ei wneud gallwch drefnu sesiwn arweiniad ddiuedd am ddim gyda Pension Wise, gwasanaeth am ddim gan HelpwrArian.

Ffoniwch 0800 138 3944 i drefnu'ch apwyntiad am ddim neu ewch i moneyhelper.org.uk/pension-wise